

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	5
Cefndir	9
Trosolwg o'r Canlyniadau	15
Methodoleg	23
Amcanestyniadau Aelwydydd Cenedlaethol a Lleol	29
Gwaith Pellach	33
Gwybodaeth am Ansawdd	37
Gwybodaeth Bellach	41

Pennod 1

Cyflwyniad

Cyflwyniad

Mae angen parhaus am yr amcanestyniadau aelwydydd, ar lefel yr awdurdod lleol yng Nghymru. Mae angen i gynllunwyr lleol a strategol fod yn ymwybodol o niferoedd aelwydydd yn y dyfodol ar lefel awdurdodau lleol er mwyn ateb y galw am dai. Mae amcanestyniadau aelwydydd yn darparu amcangyfrifon ynghylch niferoedd aelwydydd yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a thybiaethau ynghylch cyfansoddiad a nodweddion aelwydydd.

Yr adroddiad hwn yw'r allbwn cyntaf o'r ail set o amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol ar gyfer Cymru. Amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2006 yw'r set gyntaf o amcanestyniadau aelwydydd awdurdod lleol ar gyfer Cymru. Bydd adroddiad Awdurdodau Lleol ar wahân yn cyflwyno dadansoddiadau manwl o'r amcanestyniadau aelwydydd ar ffurf siartiau, tablau a thestun ar gyfer pob awdurdod lleol yn cael ei ystyried.

Mae ciwbiau data manwl wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan StatsWales. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar gael ar StatsWales:

www.statswales.wales.gov.uk

Tony Whiffen a Hannah Kleinberg sydd wedi cynhyrchu'r amcanestyniadau aelwydydd awdurdod lleol, gyda chyfraniad gan y Gweithgor Amcanestyniadau Aelwydydd Genedlaethol Cymru (WASHP).

Byddem yn croesawu adborth ynghylch cynnwys a chyflwyniad yr adroddiad hwn. Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer rhoi adborth neu gyflwyno ymholiadau cyffredinol:

Ystadegydd: Rhiannon Caunt
e-bost: **stats.housing@wales.gsi.gov.uk**
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
ffôn: 029 2082 3332

Ystadegau'r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



Pennod 2
Cefndir

Cefndir

Beth yw amcanestyniadau aelwydydd?

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn darparu amcangyfrifon ynghylch niferoedd aelwydydd yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch twf y boblogaeth a chyfansoddiad a maint aelwydydd yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol, a'r cyfan y mae'r amcanestyniadau'n ei wneud yw dangos beth allai ddigwydd pe bai tueddiadau diweddar yn parhau. Nid yw amcanestyniadau a gaiff eu llunio yn y modd hwn yn ystyried effeithiau polisiau llywodraeth leol neu ganolog neu ffactorau economaidd-gymdeithasol ar gyfraddau ffurfio aelwydydd neu lefelau'r boblogaeth yn y dyfodol.

Caiff amcanestyniadau aelwydydd eu seilio ar amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo yn y dyfodol. O ganlyniad, maent yn darparu arwydd o alw am leoedd ar gyfer aelwydydd yn y dyfodol o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth.

Mae amcanestyniadau aelwydydd wedi'u cynhyrchu at ddibenion penodol ar gyfer pob gwlad yn y Deyrnas Unedig ers sawl blwyddyn. Yn y gorffennol, câi amcanestyniadau ar gyfer Cymru eu cynhyrchu gyda'r rhai ar gyfer Lloegr. Yr amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2006 oedd y rhai cyntaf a gynhyrchwyd ar wahân ar gyfer Cymru, a chawsant eu cynhyrchu gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, yr amcanestyniadau hynny oedd yr amcanestyniadau aelwydydd cyntaf ar gyfer Cymru a gynhyrchwyd ar lefel awdurdodau lleol.

Ffyrdd o ddefnyddio amcanestyniadau aelwydydd

Ceir llawer o alw ar lefel awdurdodau lleol am amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Cymru. Mae angen i'r rheini sy'n cynllunio ar gyfer y dyfodol ystyried y galw a fydd am dai yn y dyfodol, er mwyn darparu tai a gwasanaethau.

Nid yw amcanestyniadau aelwydydd yn rhagolygon o niferoedd anheddau neu dai. Yn hytrach maent yn darparu arwydd o alw am dai yn y dyfodol ar sail tueddiadau diweddar, a gellir eu defnyddio'n sail ar gyfer gwaith cynllunio ym maes tai, ee mewn Cynlluniau Datblygu Awdurdodau Lleol. Gellir eu defnyddio hefyd i amcangyfrif yr angen am wasanaethau yn y dyfodol (er enghraifft, gwasanaethau iechyd a chyfleustodau).

Cyfyngiadau amcanestyniadau aelwydydd

Mae cyfyngiadau'n perthyn i amcanestyniadau aelwydydd. Y cyfan y mae'r amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol yn ei wneud yw dangos beth allai ddigwydd pe bai'r tybiaethau sy'n seiliedig ar dueddiadau'n parhau i fod yn ddilys. Fel y soniwyd uchod, mae amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth. O ganlyniad, maent yn dibynnu i ryw raddau ar y tybiaethau craidd ynghylch ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn y dyfodol, sy'n rhan o'r amcanestyniadau poblogaeth.

Yn ogystal nid yw amcanestyniadau aelwydydd yn rhagolygon ar sail polisïau o beth allai ddigwydd, ac nid ydynt yn ystyried effeithiau polisïau llywodraeth leol neu ganolog ar gyfraddau ffurfio aelwydydd neu lefelau'r boblogaeth yn y dyfodol.

Gan fod y broses o newid demograffig yn un gronol, bydd amcanestyniadau'n mynd yn fwyfwy ansicr po bellaf y byddant yn edrych ymlaen. Mae hefyd yn bosibl cynhyrchu amcanestyniadau gwahanol ar sail tybiaethau neu wybodaeth amgen. Gelwir yr amcanestyniadau hynny'n amcanestyniadau ar sail amrywiolion. Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau aelwydydd, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniadau aelwydydd. Maent yn seiliedig ar yr amcanestyniadau ar sail amrywiolion uchel ac isel o'r amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2006 ar gyfer Cymru.

Mae amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol yn dangos y nifer debygol o aelwydydd a fydd yn bodoli os bydd tueddiadau cyfredol yn parhau. Gallai hynny arwain at gyflwyno polisïau newydd, a allai olygu na fyddai'r amcanestyniadau gwreiddiol yn cael eu gwireddu. Golyga hynny y bydd yr amcanestyniadau aelwydydd wedi cyflawni un o'u prif swyddogaethau, sef dangos canlyniadau tueddiadau diweddar a chyfredol o ran ffurfio aelwydydd, a rhoi cyfle i lunwyr polisïau a chynllunwyr darpariaethau o ran gwasanaethau eu newid nhw. Dylid nodi nad yw amcanestyniadau aelwydydd yn darparu niferoedd pendant aelwydydd yn y dyfodol ar gyfer awdurdod. Yn hytrach, maent yn darparu arwydd yn unig o'u niferoedd yn y dyfodol ar sail tueddiadau cyfredol.

Hanes amcanestyniadau aelwydydd yng Nghymru

Dyma'r ail dro i'r amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Cymru gael eu cynhyrchu ar wahân i'r rhai ar gyfer Lloegr. Yn ogystal, mae'r ail set o amcanestyniadau aelwydydd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn y gorffennol bu Prifysgol Anglia Ruskin yn cynhyrchu amcanestyniadau ac amcangyfrifon ynghylch aelwydydd ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, hyd at a chan gynnwys y set o amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2003. Defnyddiodd y rheini ddata ynghylch amcanestyniadau poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a data ynghylch amcanestyniadau statws priodasol gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Roedd yr amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol yn gyfraniad allweddol i'r model blaenorol. Câi'r amcanestyniadau hynny eu cyflwyno ar gyfer pedwar grŵp rhanbarthol o awdurdodau unedol yn hytrach nag ar gyfer awdurdodau unedol unigol. Roedd y grwpiau hynny'n seiliedig ar ranbarthau'r Cynulliad Cenedlaethol, fel yr oeddent cyn mis Ebrill 2005. O ganlyniad dim ond ar lefel is-genedlaethol y mae amcanestyniadau aelwydydd wedi'u cyhoeddi gan ddefnyddio'r un grwpiau rhanbarthol o awdurdodau unedol yng Nghymru tan nawr.

Datblygwyd dull gweithredu newydd yn 2007 i gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer Cymru. Roedd y dull gweithredu hwnnw'n golygu defnyddio data a thueddiadau ar lefel leol, ond heb orfodi amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol i gyfateb i'r amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru. Cafodd yr amcanestyniadau awdurdodau lleol a ddeilliodd o hynny ac sy'n seiliedig ar 2006 eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2008, ac maent wedi darparu ffynhonnell ddata newydd y gellir seilio amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Cymru arni (gweler yr Adroddiad Cryno ar gyfer 'Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2006)' i gael mwy o wybodaeth). Cyhoeddwyd yr amcanestyniadau aelwydydd canlynol ar gyfer Cymru ym mis Mehefin 2009.

Dull o gynhyrchu amcanestyniadau awdurdodau lleol

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd hyn wedi'u datblygu â chyngor arbenigol gan awdurdodau lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru - trwy Weithgor Amcanestyniadau Aelwydydd Is-genedlaethol Cymru (WASHP). Mae'r gweithgor hwnnw wedi datblygu o Weithgor Poblogaeth Is-genedlaethol Cymru (WASPP), sy'n is-grŵp o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Mae gweithgor WASHP wedi cyfarfod yn rheolaidd ers dechrau 2008, ac mae wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth dechnegol ynghylch methodoleg, sail a data hanesyddol, a gwaith cyhoeddi'r amcanestyniadau aelwydydd. Mae aelodau gweithgor WASHP yn cynnwys cynrychiolwyr sydd â phrofiad o ddata demograffig a data ynghylch tai o awdurdodau lleol Cymru, yr Uned Ddata a Llywodraeth y Cynulliad.

Mae diweddariadau rheolaidd (papurau a chyflwyniadau) wedi'u darparu hefyd mewn cyfarfodydd llawn o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Ceir mwy o wybodaeth am y Pwyllgor hwnnw, gan gynnwys ei aelodau, trwy droi at:
www.dataunitwales.gov.uk/WSLC.asp?lang=cy

Pennod 3
Trosolwg o'r Canlyniadau

Trosolwg o'r Canlyniadau

Amcanestyniadau Aelwydydd, yn ôl math, yng Nghymru

Mae Tabl 1 yn dangos mai'r amcanestyniad yw y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu i bron i 1.6 miliwn erbyn 2033. Mae hynny'n gynydd o 323,000 o aelwydydd neu 25 y cant o gymharu â 2008, â chynnydd blynyddol o ychydig o dan 1 y cant.

Tabl 1: Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd, Cymru, 2008-2033^(a)

	<i>Miloedd a chanran</i>						
	2008	2013	2018	2023	2028	2033	Newid ar ffurf canran, 2008 to 2033
1 person	404.9	448.7	495.5	543.4	586.8	627.8	55
2 berson (dim plant)	409.6	436.2	461.8	478.9	489.6	496.6	21
2 berson (1 oedolyn, 1 plentyn)	53.1	61.1	69.1	77.4	85.0	91.9	73
3 pherson (dim plant)	83.6	82.8	80.3	75.6	72.0	70.2	-16
3 pherson (2 oedolyn, 1 plentyn)	87.7	89.4	90.7	92.0	93.3	94.9	8
3 pherson (1 oedolyn, 2 blentyn)	33.6	37.4	42.2	47.5	51.7	55.1	64
4 person (dim plant)	23.3	22.0	20.1	17.9	16.8	16.4	-30
4 person (2+ oedolyn, 1+ plentyn)	116.2	108.1	102.3	99.0	96.0	91.8	-21
4 person (1 oedolyn, 3 phlentyn)	11.3	12.5	14.2	16.0	17.4	18.4	64
5+ person (dim plant)	8.2	8.8	8.9	8.6	9.4	10.1	23
5+ person (2+ oedolyn, 1+ plentyn)	61.6	54.7	49.9	47.0	43.9	40.1	-35
5+ person (1 oedolyn, 4+ plentyn)	4.2	4.7	5.3	6.1	6.6	7.0	68
Pob math o aelwyd	1,297.3	1,366.4	1,440.3	1,509.2	1,568.5	1,620.3	25

(a) Ar sail yr Amcanestyniad Poblogaeth Cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2008

Yr amcanestyniad yw y bydd nifer yr aelwydydd ag un person yn dangos cynnydd o fwy na 200,000 erbyn 2033. Yn ôl yr amcanestyniadau, aelwydydd ag un person fydd y math mwyaf cyffredin o aelwyd yng Nghymru erbyn 2013. Yn ystod 2008, aelwydydd â 2 berson heb blant yw'r math mwyaf cyffredin.

Yn ôl yr amcanestyniadau, nifer yr aelwydydd â 2 berson (1 oedolyn, 1 plentyn) fydd yn dangos y cynnydd mwyaf o ran canran. Yr amcanestyniad yw y bydd y rhain yn cynyddu o 73 y cant rhwng 2008 a 2033. Yn ôl yr amcanestyniadau, bydd nifer pob math o aelwyd ag un rhiant yn cynyddu o oddeutu 102,000 i 172,000 erbyn 2033, sef cynnydd o 69 y cant. Yr amcanestyniad yw y bydd niferoedd cyffredinol aelwydydd â 4 neu fwy o bobl yn gostwng o 225,000 yn 2008 i 184,000 yn 2033, sef gostyngiad o 18 y cant.

Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl awdurdod lleol

Mae Tabl 2 yn dangos nifer amcanestynedig yr aelwydydd yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol.

Yn ôl yr amcanestyniadau, bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru rhwng 2008 a 2033. Mae'r amcanestyniadau ynghylch cynnydd yn amrywio o 7 y cant ar gyfer Torfaen i 52 y cant ar gyfer Caerdydd.

Yn ôl yr amcanestyniadau, Merthyr Tudful fydd â'r nifer leiaf o aelwydydd a Chaerdydd fydd â'r nifer fwyaf o aelwydydd trwy gydol y cyfnod.

Tabl 2: Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl awdurdod lleol, Cymru, 2008-2033^(a)

	<i>Miloedd a chanran</i>						
	2008	2013	2018	2023	2028	2033	Newid ar ffurf canran, 2008 to 2033
Cymru(b)	1,297.3	1,366.4	1,440.3	1,509.2	1,568.5	1,620.3	25
Ynys Môn	30.6	32.0	33.4	34.5	35.3	35.8	17
Gwynedd	51.9	53.8	55.7	57.5	59.0	60.3	16
Conwy	50.7	52.8	55.0	57.0	58.7	59.9	18
Sir Ddinbych	43.1	45.8	48.5	51.2	53.5	55.3	28
Sir y Fflint	64.1	67.1	69.9	72.2	73.8	74.6	16
Wrecsam	57.2	60.7	64.1	67.4	70.2	72.7	27
Powys	59.0	63.0	66.7	70.0	72.7	74.6	26
Ceredigion	32.8	34.3	35.9	37.4	38.6	39.5	20
Sir Benfro	52.1	55.2	58.1	60.6	62.7	64.4	24
Sir Gaerfyrddin	80.3	86.2	92.0	97.5	102.5	106.8	33
Abertawe	100.5	106.5	112.7	118.8	124.4	129.9	29
Castell-nedd Port Talbot	62.1	65.8	69.3	72.5	75.4	77.9	26
Pen-y-bont a Ogwr	58.2	62.0	65.7	69.2	72.2	74.7	28
Bro Morgannwg	52.8	56.2	59.6	62.7	65.4	67.7	28
Caerdydd	136.7	149.7	164.2	178.8	192.8	207.5	52
Rhondda Cynon Taf	99.1	103.0	106.9	110.4	113.1	115.4	16
Merthyr Tudful	23.9	24.9	25.8	26.5	27.0	27.5	15
Caerffili	74.0	77.8	81.4	84.4	86.7	88.6	20
Blaenau Gwent	30.7	32.1	33.5	34.6	35.5	36.2	18
Torfaen	38.8	39.8	40.7	41.3	41.6	41.6	7
Sir Fynwy	38.1	40.2	42.2	44.0	45.2	45.9	20
Casnewydd	59.6	62.0	64.7	67.0	68.9	70.7	19

(a) Ar sail Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol sy'n seiliedig ar 2008

(b) Ar sail yr Amcanestyniad Poblogaeth Cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2008

Amcanestyniadau Poblogaeth Aelwydydd

Mae Tabl 3 yn dangos y boblogaeth a ragwelir ar gyfer aelwydydd yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru.

Rhwng 2008 a 2033 rhagwelir bydd poblogaeth aelwydydd preifat yng Nghymru yn cynyddu 11 y cant yn gyffredinol. Rhagwelir bydd poblogaeth aelwydydd preifat yn cynyddu ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru ac eithrio Torfaen, sydd yn gostwng 2 y cant. Mae'r cynydd yn yr rhagamcanion i 2033 yn amrywio o 42 y cant yng Nghaerdydd i 1 y cant yn Sir y Fflint. I rai awdurdodau mae poblogaeth aelwydydd preifat yn cynyddu i ddechrau ac yna yn dechrau lleihau erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniad.

Tabl 3: Poblogaeth Aelwydydd Preifat wrth Awdurdod Lleol, Cymru, 2008-2033 (a)

Miloedd a chanran

	2008	2013	2018	2023	2028	2033	Newid ar ffurf canran, 2008 to 2033
Cymru(b)	2,944.2	3,007.5	3,086.3	3,162.6	3,228.1	3,278.0	11
Ynys Môn	68.1	69.1	70.1	70.9	71.2	71.2	5
Gwynedd	115.5	116.6	118.0	119.7	121.2	122.1	6
Conwy	109.0	110.5	112.0	113.4	114.4	114.8	5
Sir Ddinbych	94.8	97.8	100.9	103.8	106.1	107.9	14
Sir y Fflint	148.6	149.9	151.0	151.4	151.1	149.7	1
Wrecsam	131.0	135.1	139.1	142.7	145.8	148.3	13
Powys	129.9	133.5	136.8	139.8	142.0	143.0	10
Ceredigion	73.9	75.6	77.4	79.1	80.3	81.0	10
Sir Benfro	116.1	118.9	121.6	123.9	125.6	126.5	9
Sir Gaerfyrddin	177.9	184.5	191.2	197.4	202.8	207.1	16
Abertawe	226.3	233.5	242.0	250.9	259.3	266.9	18
Castell-nedd Port Talbot	136.3	139.1	142.2	144.9	147.1	148.8	9
Pen-y-bont a Ogwr	132.3	136.3	140.3	143.9	147.0	149.5	13
Bro Morgannwg	122.1	126.2	130.5	134.7	138.3	141.1	16
Caerdydd	322.4	345.7	372.7	401.9	430.8	458.8	42
Rhondda Cynon Taf	231.6	234.3	237.3	239.9	241.6	242.4	5
Merthyr Tudful	55.2	55.8	56.6	57.1	57.4	57.5	4
Caerffili	171.1	173.7	176.2	178.2	179.4	179.6	5
Blaenau Gwent	68.0	68.7	69.6	70.2	70.3	70.2	3
Torfaen	89.7	89.7	89.7	89.5	88.8	87.6	-2
Sir Fynwy	86.3	87.9	89.3	90.6	91.5	91.7	6
Casnewydd	137.9	140.2	143.2	146.3	148.9	151.1	10

(a) Ar sail Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol sy'n seiliedig ar 2008

(b) Ar sail yr Amcanestyniad Poblogaeth Cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2008

Cyfartaledd Maint Aelwydydd

Mae Tabl 4 isod yn dangos bod yr amcanestyniad yn dangos bydd cyfartaledd maint aelwydydd yng Nghymru yn gostwng o 2.27 o bobl fesul aelwyd i 2.02 o bobl fesul aelwyd erbyn canol 2033. Y rheswm am hynny yw gostyngiad amcanol cyffredinol yn nifer y bobl mewn aelwydydd mwy (4 person neu fwy) a chynnydd cydamserol yn nifer y bobl mewn aelwydydd llai.

Caiff y gostyngiad yng nghyfartaledd maint aelwydydd ar lefel Cymru ei adlewyrchu ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru hyd 2033. Ar gyfer Conwy, mae'r amcanestyniad yw y bydd cyfartaledd maint aelwydydd yn gostwng islaw 2 berson fesul aelwyd erbyn 2023, a ddilynir gan Sir Ddinbych, Powys, Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent erbyn 2028. Mae Caerdydd yn Amcanestynnir i gael y mwyaf cyfartaledd maint aelwydydd ledled. Bydd cyfartaledd maint aelwydydd ar ei uchaf trwy gydol y cyfnod yng Nghaerdydd.

Tabl 4: Amcanestyniadau ynghylch cyfartaledd maint aelwydydd yn ôl awdurdod lleol, 2008-2033^(a)

	2008	2013	2018	2023	2028	2033
Cymru(b)	2.27	2.20	2.14	2.10	2.06	2.02
Ynys Môn	2.22	2.16	2.10	2.05	2.02	1.99
Gwynedd	2.23	2.17	2.12	2.08	2.05	2.03
Conwy	2.15	2.09	2.04	1.99	1.95	1.92
Sir Ddinbych	2.20	2.14	2.08	2.03	1.99	1.95
Sir y Fflint	2.32	2.24	2.16	2.10	2.05	2.01
Wrecsam	2.29	2.23	2.17	2.12	2.08	2.04
Powys	2.20	2.12	2.05	2.00	1.95	1.92
Ceredigion	2.25	2.20	2.16	2.11	2.08	2.05
Sir Benfro	2.23	2.15	2.09	2.04	2.00	1.96
Sir Gaerfyrddin	2.22	2.14	2.08	2.02	1.98	1.94
Abertawe	2.25	2.19	2.15	2.11	2.08	2.05
Castell-nedd Port Talbot	2.20	2.12	2.05	2.00	1.95	1.91
Pen-y-bont a Ogwr	2.27	2.20	2.14	2.08	2.04	2.00
Bro Morgannwg	2.31	2.25	2.19	2.15	2.12	2.09
Caerdydd	2.36	2.31	2.27	2.25	2.23	2.21
Rhondda Cynon Taf	2.34	2.28	2.22	2.17	2.14	2.10
Merthyr Tudful	2.31	2.25	2.20	2.16	2.12	2.09
Caerffili	2.31	2.23	2.17	2.11	2.07	2.03
Blaenau Gwent	2.22	2.14	2.07	2.03	1.98	1.94
Torfaen	2.31	2.25	2.20	2.17	2.13	2.10
Sir Fynwy	2.27	2.19	2.12	2.06	2.02	2.00
Casnewydd	2.31	2.26	2.21	2.18	2.16	2.14

(a) Ar sail Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol sy'n seiliedig ar 2008

(b) Ar sail yr Amcanestyniad Poblogaeth Cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2008

Amcanestyniadau aelwydydd ar sail amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n amgylchynu unrhyw ragolwg neu amcanestyniad, a'r ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig ag ymddygiad demograffig, mae amcanestyniadau aelwydydd wedi'u cynhyrchu ar sail amrywiolion.


Ar lefel Cymru, mae'r amcanestyniadau aelwydydd ar sail amrywiolion yn seiliedig ar yr amcanestyniadau poblogaeth ar sail amrywiolion cyfuniad uchaf ac isaf, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

- Mae'r amcanestyniad aelwydydd ar sail amrywiolion uchel yn seiliedig ar dybiaethau o ffrwythlondeb uchel, disgwyliad oes uchel a lefelau ymfudo uchel.
- Mae'r amcanestyniad aelwydydd ar sail amrywiolion isel yn seiliedig ar dybiaethau o ffrwythlondeb isel, disgwyliad oes isel a lefelau ymfudo isel.

Er hynny, ni ddylid ystyried y rhain yn amcanestyniadau uchaf neu isaf. Yn hytrach, dylid eu hystyried yn set o ganlyniadau posibl a allai ddeillio o dueddiadau amgen.

Mae Ffigur 1 yn dangos nifer yr aelwydydd yng Nghymru dan y prif amcanestyniad o gymharu â'u nifer dan amcanestyniadau ar sail amrywiolion uchel ac isaf. Dan yr amcanestyniad ar sail amrywiolion uchel, bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu o 21 y cant i 1.56 miliwn erbyn 2033. Dan yr amcanestyniad ar sail amrywiolion isel, bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu o 12 y cant i 1.46 miliwn yn ystod yr un cyfnod.


Ffigur 1: Amcanestyniadau aelwydydd yng Nghymru yn ôl amrywiolyn, 2008-2033



Cymharu ag amcanestyniadau blaenorol

Mae Ffigur 2 a Thabl 5 yn dangos y gwahaniaethau yng nghyfanswm amcanestynedig nifer yr aelwydydd a chyfartaledd maint aelwydydd ar gyfer Cymru, ar sail amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2006 a 2003.

Ffigur 2: Amcanestyniadau aelwydydd yng Nghymru, amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2003 a 2006




Tabl 5: Cyfartaledd amcanestynedig maint aelwydydd ar gyfer Cymru, 2006-2026

	2006	2011	2016	2021	2026
Amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2006	2.30	2.23	2.16	2.11	2.07
Amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2008		2.23	2.16	2.11	2.07

Mae Ffigur 2 yn dangos mai cyfanswm amcanestynedig nifer yr aelwydydd ar gyfer Cymru gan ddefnyddio'r amcanestyniad sy'n seiliedig ar 2008 yw 1.60 miliwn yn 2026, o gymharu ag 1.59 miliwn gan ddefnyddio'r amcanestyniad sy'n seiliedig ar 2006, sef gwahaniaeth o 0.7 y cant. Mae Tabl 5 yn dangos na fu newid yn yr amcanestyniad ynghylch maint aelwydydd, o gymharu â'r amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2006.

Gan na fu unrhyw newidiadau i'r fethodoleg rhwng yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2006 a 2008, mae gwahaniaethau bach rhwng y ddwy set o amcanestyniadau oherwydd newidiadau yn yr amcanestyniadau poblogaeth sylfaenol.



Pennod 4
Methodoleg

Methodoleg

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r fethodoleg gyffredinol a ddefnyddir wrth gynhyrchu amcanestyniadau aelwydydd. Nid yw'r fethodoleg hon wedi newid o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig a 2006. Cyhoeddwyd adroddiad technegol llawn sy'n cynnwys esboniadau manylach o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn mis Awst 2010. Mae hwn ar gael ar y dudalen ar gyfer ystadegau tai:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Cyfrifwyd yr amcanestyniadau aelwydydd hyn trwy:

- ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth i gyfrifo nifer amcanestynedig y bobl sy'n byw ar aelwydydd preifat;
- defnyddio data hanesyddol i gyfrifo cyfraddau amcanestynedig aelodaeth aelwydydd;
- lluosio nifer amcanestynedig y bobl sy'n byw ar aelwydydd preifat â chyfraddau amcanestynedig aelodaeth aelwydydd;
- rhannu'r canlyniadau yn ôl maint aelwyd a'u cyfansymio yn ôl oedran, rhyw a math o aelwyd, er mwyn cael cyfanswm amcanestynedig nifer yr aelwydydd.

Cynhaliwyd y broses hon fesul awdurdod lleol ac ar gyfer Cymru gyfan. Eglurir pob cam o'r broses isod.

Cyfanswm Amcanestynedig y Boblogaeth

Cymerwyd cyfanswm y boblogaeth o'r amcanestyniadau poblogaeth a oedd ar gael, ac fe'i rhannwyd yn ôl grŵp oedran a rhyw. Ar lefel awdurdodau lleol, defnyddiwyd amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2008 ar gyfer Cymru. Ar lefel Cymru, defnyddiwyd data o'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2008 (prif amcanestyniad) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer Lloegr, ar wahân i'r ffaith nad yw'r canlyniadau ar gyfer awdurdodau lleol yn cael eu gorfodi i gyfateb i'r canlyniadau ar lefel Cymru. I gael mwy o fanylion, gweler yr adran ar Amcanestyniadau Aelwydydd Cenedlaethol a Lleol.

Poblogaeth Aelwydydd Preifat

Y boblogaeth aelwydydd preifat yw nifer y bobl sy'n byw ar aelwydydd preifat. Ar gyfer pob blwyddyn, cyfrifwyd y boblogaeth aelwydydd preifat trwy dynnu'r boblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol o'r boblogaeth amcanestynedig yn ôl grŵp oedran a rhyw.

Mae sefydliadau cymunedol yn cynnwys cartrefi gofal preswyl, neuaddau preswyl prifysgolion, ysgolion preswyl a charchardai. Nid yw canlyniadau amcanestyniadau poblogaeth yn cynnwys cyfrifiadau ar wahân ar gyfer sefydliadau cymunedol, felly defnyddiwyd data o gyfrifiad 2001. O ganlyniad, ar gyfer pob blwyddyn amcanestynedig, tybir bod nifer y bobl dan 75 oed a chyfran y bobl 75 oed a throsodd sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol yr un fath ag yr oeddent yn 2001.

Cyfraddau Aelodaeth Aelwydydd

Cyfanswm poblogaeth aelwydydd preifat yw cyfanswm nifer y bobl sy'n byw ar aelwydydd preifat. Pan fydd cyfanswm poblogaeth aelwydydd preifat wedi'i gyfrifo, mae angen pennu'r niferoedd sy'n byw ar bob math o aelwyd. Cafodd y mathau o aelwydydd eu pennu yn ôl eu maint a phresenoldeb plant. Roedd 12 math i gyd, fel y dangosir isod.

Cafwyd data hanesyddol am y boblogaeth ym mhob math o aelwyd o gyfrifiad 1991 a chyfrifiad 2001, ac fe'i defnyddiwyd i lunio cyfraddau aelodaeth amcanestynedig ar gyfer pob math o aelwyd. Mae aelodaeth gwahanol fathau o aelwydydd yn tueddu i amrywio yn ôl oedran a rhyw, felly cyfrifwyd cyfrannau hanesyddol pobl ym mhob math o aelwyd yn ôl rhyw ar gyfer pob grŵp oedran a ddangosir isod.

Y grwpiau oedran a'r mathau o aelwydydd a ddefnyddiwyd yn yr amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2008

Grwpiau Oedran	Mathau o Aelwydydd
0-4	1 person
5-9	2 berson (dim plant)
10-15	2 berson (1 oedolyn, 1 plentyn)
16-18	3 pherson (dim plant)
19-24	3 pherson (2 oedolyn, 1 plentyn)
25-29	3 pherson (1 oedolyn, 2 blentyn)
30-34	4 person (dim plant)
35-39	4 person (2+ oedolyn, 1+ plentyn)
40-44	4 person (1 oedolyn, 3 phlentyn)
45-49	5+ person (dim plant)
50-54	5+ person (2+ oedolyn, 1+ plentyn)
55-59	5+ person (1 oedolyn, 4+ plentyn)
60-64	
65-74	
75-84	
85+	

Gan mai data cyfrifiadau'n unig a ddefnyddiwyd, cafodd y cyfrannau hanesyddol hyn eu hamcanestyn gan ddefnyddio model esbonyddol deubwynt. Roedd y model hwnnw'n sicrhau bod y cyfraddau aelodaeth a gyfrifwyd ar gyfer pob math unigol o aelwyd yn fwy na 0 ond yn llai nag 1. Yna graddiwyd y canlyniadau fel eu bod yn cyfateb i 1 ar gyfer pob cyfuniad o grŵp oedran a rhyw.

Poblogaeth amcanestynedig yn ôl math o aelwyd

Lluoswyd poblogaeth amcanestynedig aelwydydd preifat â chyfraddau amcanestynedig aelodaeth aelwydydd er mwyn rhoi'r boblogaeth amcanestynedig yn ôl grŵp oedran, rhyw, a math o aelwyd.

Aelwydydd amcanestynedig

Cafodd y boblogaeth amcanestynedig yn ôl math o aelwyd ei rhannu â maint aelwyd a'i chyfansymio'n ôl grŵp oedran a rhyw i roi nifer amcanestynedig yr aelwydydd yn ôl eu math. Cafodd canlyniadau hynny eu cyfansymio ymhellach i roi cyfanswm amcanestynedig nifer yr aelwydydd ar gyfer pob awdurdod lleol a Chymru gyfan.

Amcanestyniadau ar sail amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau aelwydydd, mae amcanestyniadau ar sail amrywiolion wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif amcanestyniadau aelwydydd. Sylwer, ar lefel Cymru ac ar lefel awdurdodau lleol, ni ddylid ystyried y rhain yn amcanestyniadau uchaf neu isaf. Yn hytrach, dylid eu hystyried yn set o ganlyniadau posibl a allai ddeillio o dueddiadau gwahanol.

Ar lefel Cymru, mae'r amcanestyniadau aelwydydd ar sail amrywiolion yn seiliedig ar yr amcanestyniadau poblogaeth ar sail amrywiolion cyfuniad uchaf ac isaf, a newid naturiol yn unig (neu 'dim ymfudiad') a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r amcanestyniad aelwydydd ar sail amrywiolion uchel yn seiliedig ar dybiaethau o ffrwythlondeb uchel, disgwyliad oes uchel a lefelau ymfudo uchel. Mae'r amcanestyniad aelwydydd ar sail amrywiolion isel yn seiliedig ar dybiaethau o ffrwythlondeb isel, disgwyliad oes isel a lefelau ymfudo isel. Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad yn seiliedig ar ragdybiaeth o ddim ymfudiad net, i neu gan Gymru i nodi'r effaith mae mudo yn ei gael ar ffurfio aelwydydd.

Ar lefel awdurdodau lleol, mae'r amcanestyniadau aelwydydd ar sail amrywiolion wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio'r amrywiolion sydd ar gael o'r rownd amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2008 yn unig. O ganlyniad, ar lefel awdurdodau lleol, mae'r amcanestyniad aelwydydd ar sail amrywiolion uchel yn seiliedig ar dybiaethau o ffrwythlondeb uchel a chyfradd marwolaethau isel. Mae'r amcanestyniad aelwydydd ar sail amrywiolion isel yn seiliedig ar dybiaethau o ffrwythlondeb isel a chyfradd marwolaethau uchel. Mae amcanestyniad heb unrhyw ymfudiad yn seiliedig ar ragdybiaeth o dim ymfudiad net i neu gan awdurdod lleol i nodi'r effaith mae mudo yn ei gael ar ffurfio aelwydydd.

Pennod 5
Amcanestyniadau Aelwydydd
Cenedlaethol a Lleol

Amcanestyniadau Aelwydydd Cenedlaethol a Lleol

Cefndir


Mae gwaith cynhyrchu amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2008 ar gyfer Cymru yn dilyn gwaith cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2008 ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru sy'n seiliedig ar 2008 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

Gan ddefnyddio data sydd wedi'i gyhoeddi ynghylch amcanestyniadau poblogaeth, mae'n bosibl cynhyrchu niferoedd amcanestynedig aelwydydd ar gyfer Cymru gyfan gan ddefnyddio dau ddull gwahanol:

- Cymhwyso methodoleg yr amcanestyniadau aelwydydd i'r amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru
- Cymhwyso methodoleg yr amcanestyniadau aelwydydd i'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol a chrynhof'r canlyniadau.

Gan nad oes yn rhaid i amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol gyfateb i'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol, bydd y ddau ddull hwn yn cynhyrchu canlyniadau gwahanol. Ar gyfer y set hon o amcanestyniadau aelwydydd, cynhyrchwyd yr amcanestyniad ar lefel genedlaethol trwy gymhwyso methodoleg y cyfraddau aelodaeth i'r amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2008 ar gyfer Cymru, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. O ganlyniad nid yw'r niferoedd ar gyfer awdurdodau lleol, a ddangosir yn Nhabl 2 yn y bennod 'Trosolwg o'r Canlyniadau', yn cyfateb i'r rhai ar gyfer Cymru. Mae Ffigur 1 yn cymharu'r amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Cymru gan ddefnyddio'r ddau ddull gwahanol.

Ffigur 1: Cymharu cyfanswm amcanestynedig aelwydydd, Cymru, 2008-2033



Yn gyffredinol, mae'r amcanestyniad ar lefel genedlaethol yn dilyn patrwm tebyg iawn i gyfanswm amcanestyniadau'r 22 o awdurdodau lleol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau yn cyfateb i oddeutu 4,000 yn 2013, ac mae'n cynyddu i 6,000 yn 2018 a 7,000 yn 2033. O safbwynt canran, nid yw'r gwahaniaethau'n cyfateb i fwy na 0.4 y cant erbyn 2033 tra bod y gwahaniaethau rhwng gyfanswm amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a lleol Cymru sail 2008, sy'n sail i'r amcanestyniadau aelwydydd ddim mwy na 1.1 y cant erbyn 2033.

Pryd i ddefnyddio amcanestyniadau aelwydydd ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol

Dylid defnyddio'r amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol wrth edrych ar niferoedd amcanestynedig aelwydydd un neu fwy o awdurdodau lleol yng Nghymru. Dylid eu defnyddio hefyd wrth gymharu poblogaeth amcanestynedig aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol.

Dim ond wrth edrych ar niferoedd amcanestynedig aelwydydd un neu fwy o awdurdodau lleol fel cyfran o gyfanswm Cymru y dylid defnyddio cyfanswm amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol.

Dylid defnyddio'r amcanestyniad aelwydydd ar lefel genedlaethol wrth edrych ar niferoedd amcanestynedig aelwydydd ar gyfer Cymru gyfan. Dylid defnyddio'r amcanestyniad aelwydydd ar lefel genedlaethol hefyd wrth gymharu niferoedd amcanestynedig aelwydydd â gwledydd eraill y DU.



Pennod 6
Gwaith Pellach

Gwaith Pellach

Dyma'r ail dro i'r amcanestyniadau aelwydydd gael eu cynhyrchu ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol a geir yng Nghymru. Mae amcanestyniadau aelwydydd yn datblygu'n barhaus. Wrth i ddata newydd gael ei gasglu ac wrth i ddulliau gwell gael eu cyflwyno ar gyfer amcangyfrif y boblogaeth, mae dulliau o lunio amcanestyniadau ynghylch y boblogaeth yn gwella hefyd.

Wrth ddatblygu amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol, cafodd nifer o faterion/methodolegau wedi cael eu nodi ar gyfer ymchwil parhaus.

Data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Ni fu'n bosibl defnyddio data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (a arferai gael ei alw'n Arolwg Llafurlu) i lunio amcanestyniadau ynghylch cyfraddau aelodaeth aelwydydd. Y rheswm am hynny yw maint sampl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a'r dadansoddiad o oedran, rhyw a math o aelwyd a ddefnyddiwyd i lunio'r cyfraddau aelodaeth.

Bydd gwaith yn parhau i edrych ar sut y gellid defnyddio data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i lunio amcanestyniadau ynghylch cyfraddau aelodaeth. Gallai hynny ddarparu trydydd pwynt ar gyfer y model esbonyddol ar sail data mwy diweddar.

Effeithiau economaidd-gymdeithasol

Mae'r tybiaethau o ran tueddiadau a ddefnyddiwyd yn yr amcanestyniadau'n seiliedig ar y ddau gyfrifiad diwethaf, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw newid cymdeithasol ers 2001 na ffactorau economaidd megis fforddiadwyedd.

Efallai y bydd gwaith pellach yn ystyried a ellid ffactoreiddio fforddiadwyedd i mewn i'r model amcanestyniadau aelwydydd.

Ymfudo

Dim ond yr effaith y mae ymfudo'n ei chael ar niferoedd poblogaeth y mae'r model amcanestyniadau aelwydydd yn ei hystyried. Nid yw'n ffactoreiddio'r effaith y gallai ymfudo ei chael ar gyfraddau ffurfio aelwydydd. Nid yw ychwaith yn llunio tybiaethau ynghylch gwahanol gyfraddau aelodaeth aelwydydd a allai fodoli mewn perthynas â phoblogaethau sy'n mudo.

Bydd gwaith pellach yn edrych ar y berthynas rhwng ymfudo a chyfraddau ffurfio aelwydydd, gan ddefnyddio data hydredol efallai.

Sefydliadau cymunedol

Ar gyfer yr amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2006 a 2008, mae poblogaethau aelwydydd wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio data ynghylch preswylwyr mewn sefydliadau cymunedol o gyfrifiad 2001.

Bydd gwaith yn parhau i edrych ar ddefnyddio data mwy diweddar a manwl ynghylch preswylwyr mewn sefydliadau cymunedol yn ôl math, hy neuaddau preswyl, cartrefi gofal ac ysgolion preswyl..

Cyfrifiad 2011

Bydd canlyniadau manwl o Gyfrifiad 2011 ar gael yn 2013. Bydd rhain yn cynnwys gwybodaeth ar drigolion mewn cartrefi a sefydliadau cymunedol a nifer cyffredinol o gartrefi. Bydd hyn yn galluogi gwaith i gael ei wneud i asesu cywirdeb y rhagamcanion cyfredol. Unwaith y bydd y wybodaeth wedi cael eu dadansoddi, bydd y wybodaeth newydd yn darparu pwynt data ychwanegol ar gyfer amcanestyniadau aelwydydd yn y dyfodol.

Pennod 7
Gwybodaeth am Ansawdd

Gwybodaeth am Ansawdd

Darperir gwybodaeth am ansawdd drwy'r cyhoeddiad hwn. Darperir detholiad o wybodaeth allweddol am ansawdd isod hefyd, ag adroddiad technegol llawn gyda methodoleg manylion llawn yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst 2010. Gallwch weld yr adroddiad ar ein gwefan:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Diffiniadau

Mae niferoedd amcanestynedig aelwydydd a chyfartaledd maint aelwydydd yn berthnasol i 30 Mehefin bob blwyddyn.

Poblogaeth Sylfaenol

Cafodd yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol sy'n seiliedig ar 2008 a'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2008 eu defnyddio'n boblogaeth sylfaenol ar gyfer yr amcanestyniadau aelwydydd hyn. Mae'r amcanestyniadau hynny yn eu tro'n seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn ar gyfer 2008.

Aelwyd

Mae aelwyd yn cynnwys un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac y mae ganddynt leoedd/arferion byw cyffredin – hynny yw, maent naill ai'n rhannu lolfâ neu ystafell fyw neu'n rhannu o leiaf un pryd o fwyd bob dydd. Nid yw aelwyd yr un fath â thŷ neu annedd. Ceir diffiniad o annedd isod.

Annedd

Gall annedd gynnwys un lle ar gyfer aelwyd (annedd nad yw'n cael ei rhannu) neu ddau neu fwy o leoedd ar gyfer aelwyd (annedd sy'n cael ei rhannu). O ganlyniad, gall tŷ gynnwys mwy nag un aelwyd.

Daearyddiaeth a Ffiniau

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer Cymru gyfan ac ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n seiliedig ar y ffiniau a ddefnyddiwyd ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol 2008. Mae data hanesyddol a ddefnyddiwyd i lunio'r cyfraddau aelodaeth dybiedig yn seiliedig ar ffiniau sydd ychydig yn wahanol, nad ydynt yn cynnwys y newidiadau mwyaf diweddar. Roedd data cyfrifiad 1991 yn cynnwys newidiadau i ffiniau hyd at a chan gynnwys 1997. Roedd data cyfrifiad 2001 yn cynnwys newidiadau i ffiniau hyd at a chan gynnwys 2002.

Amllder

Rhagwelir y bydd yr amcanestyniadau awdurdodau lleol sy'n sail i'r amcanestyniadau aelwydydd yn cael eu diweddarau bob dwy flynedd (yn yr un modd â'r amcanestyniadau cenedlaethol). Gobeithir y bydd yr amcanestyniadau aelwydydd yn cael eu cyhoeddi yn yr un modd.

Diwygiadau

Nid yw'n fwriad diwygio'r amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2008. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y boblogaeth sylfaenol (amcangyfrifon canol-blwyddyn 2008) ar gyfer yr amcanestyniadau poblogaeth sylfaenol yn cael eu diwygio yn y dyfodol.

Siartiau

Sylwer nad yw'r siartiau a ddefnyddir drwy'r ddogfen hon bob amser yn dechrau ar 0, ac maent yn seiliedig ar wahanol raddfeydd.

Symbolau

Mae'r symbol canlynol wedi'i ddefnyddio drwy'r cyhoeddiad hwn i gyd:

- dangos llai na hanner y digid terfynol.

Asesiad

Mae ein amcanestyniadau ac amcangyfrifon aelwydydd yn cael eu hasesu gan Awdurdod Ystadegau'r DU ar hyn o bryd fel rhan o 'Ystadegau Poblogaeth a Demograffeg' a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gwybodaeth bellach am yr asesiad hwn ar gael ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU:

www.statisticsauthority.gov.uk/assessment/current-assessments/index.html



Pennod 8
Gwybodaeth Bellach

Gwybodaeth Bellach

Amcanestyniadau Aelwydydd – Cymru

Mae'r adroddiad awdurdodau lleol, adroddiad technegol, taflen gyfarwyddyd, cwestiynau cyffredin am yr amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol, sy'n seiliedig ar 2006, ar gael ar:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae gwybodaeth am yr Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer y parciau cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2006, ar gael ar:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar wefan StatsWales (Housing / Household Projections)

www.statswales.wales.gov.uk

Amcanestyniadau Aelwydydd – gwledydd eraill y DU

Mae gwybodaeth am amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gael ar:

Lloegr

www.communities.gov.uk/housing/housingresearch/housingstatistics/housingstatisticsby/householdestimates/

Yr Alban

www.gro-scotland.gov.uk/statistics/publications-and-data/household-projections-statistics/index.html

Gogledd Iwerddon

www.nisra.gov.uk/demography/default.asp21.htm

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol

Mae crynodeb, adroddiad awdurdodau lleol ac adroddiad technegol, taflen gyfarwyddyd, cwestiynau cyffredin, a gwybodaeth bellach am yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2006 ar gael ar:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar wefan StatsWales

(Population and Migration / Population/ Projections / 2006-based local authority)

www.statswales.wales.gov.uk

Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Cymru

Mae dadansoddiad o Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Cymru sy'n seiliedig ar 2006 ar gael ym Mhennod 4 adroddiad demograffig 'Poblogaeth Cymru, 2009':

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar wefan StatsWales

(Population and Migration / Population / Projections / 2006-based national)

www.statswales.wales.gov.uk

Mae gwybodaeth bellach fanwl ar gael ar wefan Adran Actiwari'r Llywodraeth:

www.gad.gov.uk

Amcangyfrifon ynghylch Aelwydydd

Mae gwybodaeth am amcangyfrifon ynghylch aelwydydd ar gyfer Cymru ar gael ar:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Mae ciwbiau data ar gael ar wefan StatsWales

(Population and Migration / Housing / Household Estimates)

www.statswales.wales.gov.uk

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2006, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol ynghylch data'n ymwneud â thai, cysylltwch ag:

Ystadegau'r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: **stats.housing@wales.gsi.gov.uk**

Llinell Ymholiadau Cyffredinol

ffôn: 029 2082 3332